**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1441
Ein cyf LG-05303-24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

03 Gorffennaf 2024

Annwyl Jack,

Mae eich llythyr dyddiedig 23 Mai, a gyfeiriwyd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ynghylch Deiseb P-06-1441, wedi'i drosglwyddo ataf i i'w ateb gan fod y mater hwn yn rhan o'm mhortffolio Gweinidogol i.

Saif Derwen Adwy'r Meirwon, testun y ddeiseb, ym mharc Castell y Waun, sydd wedi'i gynnwys yn y gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol a gynhelir gan Weinidogion Cymru. Nid yw cofrestru yn gosod unrhyw drefn gydsynio ychwanegol. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cynllunio werthfawrogi, diogelu, gwarchod a gwella diddordeb arbennig parciau a gerddi sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr a'u lleoliadau. Pan fydd awdurdodau cynllunio'n penderfynu ar geisiadau cynllunio, dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig, neu'r lleoliad, fod yn ystyriaeth berthnasol.

Ym mis Chwefror, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Polisi Cynllunio cenedlaethol ar ddiogelu coed a choedwigoedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 yn cryfhau'r polisi ar gyfer pob coeden (gan gynnwys coetir hynafol a choed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth unigol). Mae paragraffau 6.4.37–44 yn nodi tirwedd, bioamrywiaeth a gwerth diwylliannol sylweddol coed, gan amlinellu polisïau ar gyfer eu diogelu a hyrwyddo ymyriadau cadarnhaol yn y system gynllunio i gydnabod eu pwysigrwydd. Rhaid i bolisïau llunio penderfyniadau a chynlluniau datblygu mewn awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru.

Mae'r goeden hynafol hon yn destun Gorchymyn Cadw Coed ers 2010. Prif effaith Gorchymyn o'r fath yw gwahardd torri, dadwreiddio, topio, brigdocio, achosi difrod bwriadol neu ddinistrio coeden yn fwriadol heb gydsyniad yr awdurdod cynllunio lleol. Gorchymyn Cadw Coed yw'r amddiffyniad mwyaf effeithiol ar gyfer coeden ar hyn o bryd. Roedd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 trwy gyflwyno dirwy ddiderfyn am dorri coed yn anghyfreithlon, gyda'r nod o ddarparu gwell amddiffyniad i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai Cadw sy'n gyfrifol am argymell parciau a gerddi hanesyddol i Weinidogion Cymru i'w cofrestru, nid oes ganddo unrhyw bwerau i ddiogelu coed neu blanhigfeydd penodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i ddiogelu coed a choetiroedd hynafol. Ar hyn o bryd mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ystyried ein dull o gryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer coetiroedd hynafol fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol